

---

**14eg Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**  
**Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2017**  
**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**  
**Cofnodion**

---

**AELODAU**

**Llywodraeth Cymru**

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau  
Cyhoeddus - Cadeirydd  
Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd CLILC (Casnewydd)  
Y Cyng. Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLILC (Torfaen)  
Y Cyng. Andrew Morgan, Llywydd CLIC (Rhondda Cynon Taf)  
Y Cyng. Aaron Shotton, Dirprwy Arweinydd CLILC (Sir y Fflint)

**YN BRESENNOL**

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

David Costa – Cynghorydd Arbennig  
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol  
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol  
Rob Hay – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyllid Llywodraeth Leol  
Simon Edwards – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Steve Thomas – Prif Weithredwr, CLILC  
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC  
Steve Jones – Cadeirydd, Cymdeithas Trysoryddion Cymru (Pennaeth Cyllid, Merthyr  
Tudful)

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)  
Y Cyng. Peter Fox OBE (Sir Fynwy)  
Nid oedd y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam) a'r Cyng. Dyfrig Lewis Siencyn  
(Gwynedd) yn gallu bod yn bresennol drwy'r cyfleuster fideogynadleda oherwydd  
anawsterau technegol.

### **Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau i 14eg cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid.

### **Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol (Papur 1)**

2. Cytunwyd i dderbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf fel gwir gofnod. Byddai'r cam gweithredu a oedd yn ymwneud ag ystyried rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Ionawr. Roedd y cyfarfod hwn wedi ei drefnu ar gais yr aelodau llywodraeth leol.

### **Eitem 3 ar yr Agenda: Goblygiadau Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU 2017**

3. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid fod y rhagolygon macro-economaidd a oedd yn gysylltiedig â Chyllideb Llywodraeth y DU yn awgrymu y byddai'r cynni'n parhau am wythfed flwyddyn.
4. Roedd penderfyniadau diweddar Cyllideb Llywodraeth y DU yn golygu y byddai £215 miliwn o refeniw ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru dros gyfnod o bedair blynedd.
5. Roedd cyhoeddiad Llywodraeth y DU hefyd yn golygu y byddai £1 biliwn o gyllid Cyfalaf ychwanegol ar gyfer Cymru yn ystod yr un cyfnod. Fodd bynnag, byddai £650m o hyn ar ffurf trafodiadau ariannol, ac yn y pen draw rhaid ad-dalu'r rhain i Drysorlys ei Mawrhydi, gan adael £350m o gyllid grant cyfalaf.
6. Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ei sylwadau blaenorol y byddai'n mynd ati i atgyweirio'r toriadau canlyniadol yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru a oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r rhagdybiaethau a wnaed mewn perthynas â'r toriadau gwerth £3.5 biliwn nad oeddent wedi eu dyrannu yng Nghyllideb Llywodraeth y DU, os na fyddai'r rhain yn cael eu cario drodd i ail flwyddyn y gyllideb.
7. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn bwriadu cyhoeddi nifer o ddyraniadau cyllid cyfalaf a fyddai'n weithredol ar unwaith, cyn dadl y Gyllideb Derfynol ar 16 Ionawr. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan ragor o fanylion ar drafodiadau ariannol a chyfalaf yn y gwanwyn.
8. Awgrymodd Steve Thomas (CLILC) y gellid edrych ar y prif bwysau er mwyn ystyried sut y gellid eu targedu'n benodol.
9. **Cam gweithredu: Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r swyddogion perthnasol gydweithio i symud y cam gweithredu hwn yn ei flaen.**

### **Eitem 4 ar yr Agenda: Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru**

10. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y gwaith tymor byr a'r tymor hirach y byddai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag ef ar y cynllun Rhyddhad Ardrethi

Busnesau Bach newydd a pharhaol; byddai hyn yn gwneud y system dreth gyngor yn ffordd fwy blaengar o weithredu ardrethi lleol, a byddai'n rhoi sylw i'r anghysondebau rhwng awdurdodau lleol wrth ymdrin ag achosion o beidio â thalu'r dreth gyngor.